



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2004 Rhif 1803 (Cy.191)**

**2004 No. 1803 (W.191)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid  
(Cymru) 2004**

**The Animal Gatherings (Wales)  
Order 2004**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003. Dyma'r newidiadau y mae'n eu gwneud i'r Gorchymyn hwnnw -

This Order revokes and replaces the Animal Gatherings (Wales) Order 2003. It changes that Order as follows -

- mae'n darparu y caiff y trwyddedai newid amser dechrau'r cyfnod o 48 awr o werthiant ar fangre wedi'i phalmantu, ar yr amod bod y trwyddedai'n hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r awdurdod lleol ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r newid (erthygl 9);
- mae'n darparu na all gwerthiant o gigydda dynodedig a chasgliadau o gigydda dynodedig ddigwydd ond ar fangre wedi'i phalmantu ac na ellir eu cynnal ar fangre lle mae unrhyw werthiant o fath arall, llwyth o anifeiliaid i'w traddodi ymlaen neu arddangosfa yn digwydd (erthygl 10);
- mae'n darparu eithriad ychwanegol at y gwaharddiad na cheir dod â cherbyd halogedig gan dom anifeiliaid i'r fangre drwyddedig nac ohoni (paragraff 4 o'r Atodlen).

- it provides that the licensee may change the starting time of the 48 hour period of a sale on paved premises, provided that the licensee notifies both the National Assembly for Wales and the local authority and publicises the change (article 9);
- it provides that dedicated slaughter sales and dedicated slaughter collections can only take place on paved premises and cannot be held on premises where any other type of sale, onward consignment or show or exhibition is taking place (article 10);
- it provides a further exception to the prohibition that no vehicle contaminated with animal excreta may be brought on to or taken from the licensed premises (paragraph 4 of the Schedule).

Mae'n ei gwneud yn ofynnol cael trwydded am grynoadau anifeiliaid, fel y bu hi'n ofynnol eisoes (erthygl 5). Mae'n pennu na cheir cynnal crynhoad anifeiliaid os nad yw'n digwydd 27 diwrnod ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre honno ac ar ôl i halogiad gweladwy gael ei lanhau oddi ar gyfarpar ar y fangre honno (erthygl 6). Os ar fangre wedi ei phalmantu y

As before, it requires a licence for animal gatherings (article 5). It specifies that an animal gathering can only take place 27 days after the last animal left those premises and equipment on the premises has been cleaned of visible contamination (article 6). If the gathering takes place in paved premises article 11 makes provision for the cleansing and disinfection of

cynhelir y crynhoad, mae erthygl 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer glanhau a diheintio'r fangre honno ac yn caniatáu cynnal crynhoad o fewn y terfynau amser arferol. Mae'n gosod terfyn amser o 48 awr ar grynoadau at ddibenion gwerthiant sy'n cael ei gynnal ar fangre wedi'i phalmantu (erthygl 8) a llwythi o anifeiliaid i'w traddodi ymlaen a gedwir ar unrhyw fangre. Mae'n gosod dyletswyddau ar y personau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid (erthygl 7 a'r Atodlen). Mae'n gosod cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid (erthygl 12).

Mae'n cael ei orfodi gan yr awdurdod lleol (erthygl 13).

Mae torri'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac yn dwyn cosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn a gellir ei archwilio yn swyddfeydd Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

those premises and enables a gathering to take place inside the normal time limits. It imposes a 48 hour time limit on gatherings for the purpose of sales held on paved premises (article 8) and onward consignments held on any premises. It imposes duties on persons attending an animal gathering (article 11 and the Schedule). It imposes restrictions following an animal gathering (article 12).

It is enforced by the local authority (article 13).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A regulatory appraisal has been prepared in respect of this Order and is available for inspection at the offices of the Department of Environment, Planning and Countryside, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2004 Rhif 1803 (Cy.191)****2004 No. 1803 (W.191)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid  
(Cymru) 2004****The Animal Gatherings (Wales)  
Order 2004***Wedi'i wneud* 8 Gorffennaf 2004  
*Yn dod i rym* 1 Tachwedd 2004*Made* 8 July 2004  
*Coming into force* 1 November 2004

## TREFN YR ERTHYGLAU

## ARRANGEMENT OF ARTICLES

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Hysbysiadau
4. Eithriadau
5. Defnyddio mangre ar gyfer crynoddau anifeiliaid
6. Cyfyngiad o 27 diwrnod ar gynnal crynhoad anifeiliaid
7. Esemptiad i'r cyfnod cyfyngiad o 27 diwrnod ar gyfer mangre ag ardal i anifeiliaid sydd wedi'i phalmantu
8. Terfynau amser
9. Newid ar amser dechrau crynoddau anifeiliaid at ddibenion gwerthiant
10. Gwerthiant cigydda dynodedig a chasgliadau cigydda dynodedig
11. Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid
12. Cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid
13. Gorfodi
14. Dirymu

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Notices
4. Exceptions
5. The use of premises for animal gatherings
6. 27 day restriction on when an animal gathering can take place
7. Exemption from the 27 day restricted period for premises with a paved animal area
8. Time limits
9. Change to the starting time of animal gatherings for the purpose of sale
10. Dedicated slaughter sales and dedicated slaughter collections
11. Duties on persons at an animal gathering
12. Restrictions following an animal gathering
13. Enforcement
14. Revocations

## YR ATODLEN

## SCHEDULE

Gofynion mewn crynhoad anifeiliaid

Requirements at an animal gathering

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7 ac 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## Enwi, cymhwys a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2004; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 1 Tachwedd 2004.

## Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ond heb gynnwys buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

mae i "ardal i anifeiliaid" ("*animal area*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 5(2)(c);

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi ynghyd at un neu fwy o'r dibenion canlynol -

- (a) gwerthiant, sioe neu arddangosfa;
- (b) llwyth o anifeiliaid i'w traddodi ymlaen o fewn Prydain Fawr;
- (c) archwiliad i gadarnhau bod gan yr anifeiliaid nodweddion brid penodol;

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(b) sydd o'r cryfder y mae ei angen o dan y Gorchymyn hwnnw ar gyfer "Gorchymynion Cyffredinol";

mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys llociau a chlwydi; ac

ystyr mangre "wedi'i phalmantu" ("*paved*") yw mangre ac iddi arwyneb o sement, concriid, asffalt neu ddeunydd caled anhydrin arall y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol.

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 7, 8 and 83 of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order:

## Title, application and commencement

1. This Order may be cited as the Animal Gatherings (Wales) Order 2004; it applies in relation to Wales and comes into force on 1 November 2004.

## Interpretation

2. In this Order -

"animals" ("*anifeiliaid*") means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, sheep and pigs;

"animal area" ("*ardal anifeiliaid*") has the meaning given in article 5(2)(c);

"animal gathering" ("*crynhoad anifeiliaid*") means an occasion at which animals are brought together for one or more of the following purposes -

- (a) a sale, show or exhibition;
- (b) onward consignment within Great Britain;
- (c) inspection to confirm the animals possess specific breed characteristics;

"approved disinfectant" ("*diheintydd a gymeradwywyd*") means a disinfectant approved under the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(b) at the concentration required under that Order for "General Orders";

"equipment" ("*cyfarpar*") includes pens and hurdles; and

"paved" ("*wedi'i phalmantu*") means paved with cement, concrete, asphalt or other hard, impermeable material that is capable of being effectively cleansed and disinfected.

---

(a) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S. 1993/3141). Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(b) O.S. 1978/32, O.S. 1999/919, O.S. 2002/3195, O.S. 2001/641.

---

(a) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred, so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The joint functions of "the Minister" exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1993/3141). All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) S.I. 1978/32, S.I. 1999/919, S.I. 2002/3195, S.I. 2001/641.

## Hysbysiadau

3. O ran hysbysiad neu drwydded o dan Gorchymyn hwn -

- (a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;
- (b) gellir eu diwygio, eu hatal dros dro, neu eu dirymu drwy hysbysiad a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol; ac
- (c) cânt fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y barna'r arolygydd milfeddygol fod eu hangen i atal cyflwyno clefyd i'r fangre drwyddedig neu i atal lledaenu clefyd o fewn y fangre drwyddedig neu'r tu allan iddi.

## Eithriadau

4. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys os -

- (a) yr un person sy'n berchen ar bob anifail y daethpwyd ag ef i'r crynhoad;
- (b) bydd yr anifeiliaid i gyd yn dod o un set o fangreodded y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei awdurdodi fel grwp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (a); ac
- (c) bydd y crynhoad anifeiliaid yn digwydd ar fangre y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arni neu yn ei meddiannu.

## Defnyddio mangreodded ar gyfer crynodaau anifeiliaid

5.-(1) Ni chaiff neb ddefnyddio mangre ar gyfer crynhoad anifeiliaid oni bai bod y fangre honno wedi ei thrwyddedu i'r perwyl hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i drwydded bennu -

- (a) enw'r trwyddedai;
- (b) y fangre lle y caniateir crynhoi anifeiliaid, ac
- (c) yr ardal y mae'r anifeiliaid i gael mynediad ("yr ardal anifeiliaid")

## Cyfyngiad o 27 diwrnod ar gynnal crynhoad anifeiliaid

6. Ni chaiff neb ganiatáu crynhoad anifeiliaid ar fangre y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw arni nes bydd 27 diwrnod wedi mynd heibio ers y diwrnod -

- (a) y gadawodd yr anifail olaf y fangre honno; a
- (b) ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre, pan fydd yr holl gyfarpar a ddefnyddiwyd gan yr anifeiliaid wedi ei lanhau fel nad oes unrhyw arwydd weledol ei bod wedi'i halogi.

## Notices

3. A notice or licence under this Order -

- (a) shall be in writing;
- (b) may be amended, suspended or revoked by a notice issued by a veterinary inspector; and
- (c) may be subject to such conditions as the veterinary inspector considers necessary to control the introduction into or spread of disease within or from the licensed premises.

## Exceptions

4. This Order shall not apply if -

- (a) all the animals brought to the gathering are owned by the same person;
- (b) all the animals come from one set of premises which the National Assembly for Wales has authorised as a sole occupancy group under the Disease Control (Wales) Order 2003(a); and
- (c) the animal gathering is to take place on premises owned or occupied by the owner of the animals.

## The use of premises for animal gatherings

5.-(1) No person shall use premises for an animal gathering unless those premises are licensed for that purpose by a veterinary inspector.

(2) A licence shall specify -

- (a) the name of the licensee;
- (b) the premises in which the animal gathering may take place, and
- (c) the area to which animals may be given access ("the animal area").

## 27 day restriction on when an animal gathering can take place

6. No person shall allow an animal gathering to take place on premises on which animals have been kept until 27 days have passed from the day on which -

- (a) the last animal left those premises; and
- (b) after the last animal has left the premises, all equipment to which animals have had access has been cleansed of visible contamination.

---

(a) O.S. 2003/1966 (Cy.211).

---

(a) S.I. 2003/1966 (W.211).

## **Esemptiad i'r cyfnod cyfyngiad o 27 diwrnod ar gyfer mangre ag ardal i anifeiliaid sydd wedi'i phalmantu**

7.-(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthygl 6 yn gymwys os yw'r ardal i anifeiliaid yn fangre drwyddedig wedi'i phalmantu a'i glanhau a'i diheintio ac y gwaredir gwastraff yn unol â'r erthygl hon cyn y cynhelir crynhoad anifeiliaid arall.

(2) O ran y gwaith glanhau a diheintio -

- (a) rhaid iddo beidio â dechrau nes bydd pob anifail wedi ei symud o'r rhan o'r ardal i anifeiliaid sy'n cael ei glanhau a'i diheintio; a
- (b) rhaid iddo gael ei gwblhau ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre drwyddedig a chyn i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal ar y safle eto.

(3) Mae'n rhaid ysgubo neu grafu'n lân bob rhan o'r ardal i anifeiliaid (yn cynnwys unrhyw gyfarpar), a'i glanhau drwy olchi a'i diheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

(4) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl borthiant y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, a'r holl sarn, y dom a'r deunydd arall sy'n deillio o anifeiliaid ac halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid sydd yn yr ardal i anifeiliaid, cyn gynted ag y bo modd a chyn i anifeiliaid gael mynd mewn i'r fangre drwyddedig eto

- (a) a'u distrywio,
- (b) yn cael eu trin er mwyn sicrhau nad oes perygl y byddant yn trosglwyddo clefydau; neu
- (c) eu gwaredu fel nad yw anifeiliaid yn gallu mynd atynt.

(5) Os, ar ôl yr achlysur diwethaf pan gafodd yr ardal i anifeiliaid ei glanhau a'i diheintio yn unol â'r erthygl hon, y'i halogir â dom anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n deillio o anifeiliaid neu unrhyw halogyn sy'n deillio o anifeiliaid, rhaid ysgubo neu grafu'n lân yr ardal i anifeiliaid neu'r rhannau hynny ohoni sydd wedi eu halogi felly, a'u glanhau drwy olchi a thrwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd cyn i unrhyw anifeiliaid gael mynd ar y fangre drwyddedig eto.

## **Terfynau amser**

8.-(1) Rhaid i grynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre ag iddi ardal i anifeiliaid wedi'i phalmantu beidio â phara am fwy na 48 awr, gen ddechrau ganol dydd.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol estyn cyfnod crynhoad anifeiliaid o dan baragraff (1) os yw'r arolygydd milfeddygol wedi'i fodloni-

- (a) bod angen yr estyniad er lles yr anifeiliaid; neu
- (b) mai bach yw'r perygl o gyflwyno clefydau yn y

## **Exemption from the 27 day restricted period for premises with a paved animal area**

7.-(1) The restriction in article 6 does not apply if the animal area in the licensed premises is paved and is cleansed and disinfected and waste is disposed of in accordance with this article before a further animal gathering is held.

(2) The cleansing and disinfection -

- (a) must not begin until all animals have been removed from the part of the animal area being cleansed and disinfected; and
- (b) must be completed after the last animal has left the licensed premises and before an animal gathering is held on the premises again.

(3) All parts of the animal area (including any equipment) must be swept or scraped clean, cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

(4) The licensee shall ensure that all feedingstuffs to which animals have had access, and all bedding, excreta, other material of animal origin and other contaminants derived from animals in the animal area are, as soon as possible and before animals are allowed to enter the licensed premises again -

- (a) destroyed;
- (b) treated so as to remove the risk of transmission of disease; or
- (c) disposed of so that animals do not have access to it.

(5) If, following the last occasion on which the animal area was cleansed and disinfected in accordance with this article, it becomes contaminated with animal excreta or other material of animal origin or any contaminant derived from animals, then the animal area or those parts of it that have become so contaminated must be swept or scraped clean and then cleansed by washing and an approved disinfectant applied before any animals are allowed on to the licensed premises again.

## **Time limits**

8.-(1) An animal gathering for the purpose of a sale (whether or not sale is the sole purpose) held on premises with a paved animal area shall not last for more than 48 hours, starting at midday.

(2) A veterinary inspector may extend the period of the animal gathering under paragraph (1) if the veterinary inspector is satisfied that-

- (a) the extension is necessary for animal welfare reasons; or
- (b) the risk of the introduction of disease into the

gwerthiant ac o ledaenu clefydau wedi hynny.

(3) Yn achos crynhoad anifeiliaid nad yw paragraff (1) yn gymwys iddo, os un o ddibenion y crynhoad yw crynhoi anifeiliaid ynghyd i'w traddodi ymlaen o fewn Prydain Fawr, rhaid i'r crynhoad beidio â phara am fwy na 48 awr, gan ddechrau ganol dydd.

#### **Newid ar amser dechrau crynhoadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu**

9.-(1) Yn achos crynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre ag ardal i anifeiliaid wedi'i phalmantu caiff y trwyddedai newid yr amser dechrau am ganol dydd, drwy o leiaf ddwy wythnos ymlaen llaw-

- (a) hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r awdurdod lleol o ddyddiad ac amser dechrau a diweddu y crynhoad anifeiliaid; a
- (b) rhoi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid fel y bydd y sawl sy'n dod ag anifeiliaid yno yn cael gwybod am yr amser dechrau a diweddu newydd.

(2) Os yw'r crynhoad anifeiliaid yn un sy'n digwydd ar sail reolaidd, gall yr hysbysiad a'r cyhoeddusrwydd fod ar gyfer cyfres o grynhoadau anifeiliaid.

#### **Gwerthiant cigydda dynodedig a chasgliadau cigydda dynodedig**

10.-(1) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig onid yw ar fangre ag ardal i anifeiliaid wedi'i phalmantu.

(2) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig fel rhan o grynhoad anifeiliaid sy'n cael ei gynnal at unrhyw ddiben arall.

(3) Rhaid i'r trwyddedai hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r awdurdod lleol fod y trwyddedai yn bwriadu cynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig o leiaf 3 diwrnod cyn y gwerthiant neu'r casgliad

(4) Rhaid i'r trwyddedai roi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid fel bod y sawl sy'n dod ag anifeiliaid iddo yn cael gwybod ei fod yn werthiant cigydda dynodedig neu'n gasgliad cigydda dynodedig.

(5) At ddibenion yr erthygl hon -

- (a) ystyr "gwerthiant cigydda dynodedig" yw achlysur pan grynhoir anifeiliaid ynghyd yn at ddibenion gwerthiant yn unig cyn eu traddodi ymlaen yn uniongyrchol i'w cigydda ym Mhrydain Fawr;
- (b) ystyr "casgliad cigydda dynodedig" yw achlysur pan grynhoir anifeiliaid ynghyd yn unig at ddibenion eu traddodi ymlaen yn

sale and subsequent dissemination is low.

(3) In the case of an animal gathering to which paragraph (1) does not apply, if one of the purposes of the gathering is the bringing together of animals for onward consignment within Great Britain, the gathering shall not last for more than 48 hours, starting at midday.

#### **Change to the starting time of animal gatherings for the purpose of sale**

9.-(1) In the case of an animal gathering for the purpose of a sale (whether or not sale is the sole purpose) held on premises with a paved animal area the licensee may change the midday starting time by, at least two weeks in advance-

- (a) notifying both the National Assembly for Wales and the local authority of the date and starting and ending time of the animal gathering; and
- (b) publicising the animal gathering so that those bringing animals to it are made aware of the new starting and ending time.

(2) If the animal gathering is one that is held on a recurring basis, the notification and publication may be for the series of animal gatherings.

#### **Dedicated slaughter sales and dedicated slaughter collections**

10.-(1) No person shall hold a dedicated slaughter sale or a dedicated slaughter collection other than on premises with a paved animal area.

(2) No person shall hold a dedicated slaughter sale or a dedicated slaughter collection as part of an animal gathering held for any other purpose.

(3) The licensee shall notify the National Assembly for Wales and the local authority that the licensee intends to hold a dedicated slaughter sale or dedicated slaughter collection at least 3 days before the sale or collection

(4) The licensee shall publicise the animal gathering so that those bringing animals to it are made aware that it is a dedicated slaughter sale or dedicated slaughter collection.

(5) For the purpose of this article -

- (a) a "dedicated slaughter sale" means an occasion at which animals are brought together solely for the purpose of sale before onward consignment direct to slaughter in Great Britain;
- (b) a "dedicated slaughter collection" means an occasion at which animals are brought together solely for onward consignment direct to

uniongyrchol i'w cigydda ym Mhrydain Fawr.

slaughter in Great Britain.

### **Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid**

11. Pan gynhelir crynhoad anifeiliaid (heblaw mewn sioe neu arddangosfa) mae darpariaethau'r Atodlen (gofynion ynghylch crynhoad anifeiliaid) yn effeithiol.

### **Cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid**

12.- (1) Mae darpariaethau'r erthygl hon yn gymwys unwaith y bydd yr anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid wedi gadael y fangre drwyddedig.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i anifeiliaid fynd ar y fangre drwyddedig hyd nes bydd pob cyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef wedi'i lanhau fel nad oes arno arwyddion gweledol ei fod wedi ei halogi.

(3) Ni chaiff unrhyw berson symud o'r fangre drwyddedig unrhyw gyfarpar y daeth anifeiliaid mewn crynhoad anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef -

- (a) onid yw'r halogion gweladwy wedi eu glanhau oddi ar y cyfarpar ac os nad yw cyfnod 27 diwrnod wedi dod i ben ers i'r anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid adael y fangre drwyddedig; neu
- (b) oni chafodd y cyfarpar ei ysgubo a'i grafu'n lân, ei lanhau drwy ei olchi a'i ddiheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

### **Gorfodi**

13.- (1) Mae'r Gorchymyn hwn i gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo, mewn mathau penodol o achosion penodol neu unrhyw achos penodol, mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid yr awdurdod lleol, sydd i weithredu'r swyddogaeth orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan yr erthygl hon.

### **Dirymu**

14. Dirymir Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2003(a).

### **Duties on persons at an animal gathering**

11. When an animal gathering (other than for a show or exhibition) is taking place the provisions of the Schedule (requirements at an animal gathering) shall have effect.

### **Restrictions following an animal gathering**

12.-(1) The provisions of this article apply once the last animal at an animal gathering has left the licensed premises.

(2) No person shall allow animals on to the licensed premises until all equipment to which animals at the gathering had access has been cleansed of visible contamination.

(3) No person shall remove from the licensed premises any equipment to which animals at the gathering had access unless -

- (a) the equipment has been cleansed of visible contamination and a period of 27 days has elapsed since the last animal at the animal gathering has left the licensed premises; or
- (b) the equipment has been swept or scraped clean, cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

### **Enforcement**

13.-(1) This Order shall be enforced by the local authority.

(2) The National Assembly for Wales may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement duty imposed on a local authority under this article shall be discharged by the National Assembly for Wales and not by the local authority.

### **Revocations**

14. The Animal Gatherings (Wales) Order 2003(a) is revoked.

---

(a) O.S. 2003/1967 (Cy.212).

---

(a) S.I. 2003/1967 (W.212).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

6 Gorffennaf 2004

6 July 2004

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Presiding Officer of the National Assembly

8 Gorffennaf 2004

8 July 2004

*Ben Bradshaw*

Yr Is-ysgrifennydd Seneddol

Parliamentary Under Secretary

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Department for Environment, Food and Rural Affairs

## Gofynion mewn crynhoad anifeiliaid

## Requirements at an animal gathering

**Dyletswyddau trwyddedai**

1.-(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw berson sy'n mynd ar y fangre drwyddedig yn cael gwybod bod y safle'n drwyddedig o dan y Gorchymyn hwn, pa un ai trwy gyfrwng system o hysbysiadau y gwneir hynny neu mewn rhyw ffordd arall.

(2) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu baddonau traed ac ynddynt ddiheintydd a gymeradwywyd wrth y ffyrdd allan o'r ardal i anifeiliaid ac wrth unrhyw fan llwytho a dadlwytho, a darparu cyfleusterau ar y fangre drwyddedig ar gyfer newid, glanhau a diheintio dillad a gwaredu dillad y gellir eu taflu.

(3) Mae'n rhaid i'r trwyddedai -

- (a) sicrhau mai yn yr ardal i anifeiliaid y caiff yr anifeiliaid eu dadlwytho a'u hail-lwytho, a
- (b) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw anifeiliaid yn gadael yr ardal i anifeiliaid ac eithrio ar gerbyd.

(4) Yn achos crynhoad anifeiliaid y mae erthyglau 8 i 9 yn gymwys, rhaid i'r trwyddedai sicrhau -

- (a) na ddeuir â'r un anifail i'r fangre cyn dechrau'r crynhoad anifeiliaid; a
- (b) bod pob anifail yn cael ei symud o'r fangre erbyn diwedd y crynhoad anifeiliaid.

**Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid**

2.-(1) Ni chaiff neb fynd ar fangre drwyddedig yn gwisgo dillad allanol y mae arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â dom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid.

(2) Os bydd person yn yr ardal i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â dom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, rhaid iddo ar ei union ar ôl gadael yr ardal i anifeiliaid, lanhau halogi garw oddi ar ei ddillad (onid yw'r dillad i gael eu taflu) a naill ai -

- (a) eu diheintio;
- (b) newid ei ddillad am ddillad glân;
- (c) eu taflu; neu
- (d) ymadael â'r fangre drwyddedig.

(3) Os bydd person y tu allan i'r ardal i anifeiliaid yn

**Duties on a licensee**

1.-(1) The licensee shall ensure that any person entering the licensed premises is made aware that the premises are licensed under this Order, whether by means of a system of notices or otherwise.

(2) The licensee shall provide footbaths containing approved disinfectant at exits from the animal area and at any loading and unloading bay, and facilities on the licensed premises for changing, cleaning and disinfecting clothes and disposing of disposable clothes.

(3) The licensee shall -

- (a) ensure that animals are unloaded and re-loaded in the animal area, and
- (b) ensure, so far as is reasonably practicable, that animals do not leave the animal area except on a vehicle.

(4) In the case of an animal gathering to which articles 8 to 9 apply, the licensee shall ensure that -

- (a) no animal is brought on to the premises before the start of the animal gathering; and
- (b) every animal is removed from the premises by the end of the animal gathering.

**Duties on persons attending the animal gathering**

2.-(1) No person shall enter licensed premises wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination.

(2) If a person in the animal area is wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination, on leaving the animal area that person shall immediately clean his or her clothing of gross contamination (unless the clothing is to be disposed of) and either -

- (a) disinfect it;
- (b) change into clean clothing;
- (c) dispose of it; or
- (d) leave the licensed premises.

gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi â dom anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, caiff arolygydd gyflwyno iddo hysbysiad yn rhoi iddo'r dewis a hynny ar ei union -

- (a) glanhau ei ddillad allanol,
- (b) newid ei ddillad am ddillad glân,
- (c) gwaredu dillad y gellir eu taflu, neu
- (d) ymadael â'r fangre drwyddedig.

### **Esgidiau i'w gwisgo yn yr ardal i anifeiliaid**

3. Rhaid i unrhyw berson sy'n ymadael â'r ardal i anifeiliaid lanhau a diheintio ei esgidiau yn y baddon traed sydd wedi'i ddarparu.

### **Cerbydau**

4.(1) Ni chaiff neb ddod ag unrhyw gerbyd nac offer a gludir ar y cerbyd hwnnw ar y fangre drwyddedig na mynd â hwy oddi yno os ydynt wedi'u halogi â dom anifeiliaid.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar sy'n dod ar fangre drwyddedig -

- (a) ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â dom yr anifeiliaid neu halogiad arall sy'n deillio o anifeiliaid a oedd yn cael eu cludo ar y cerbyd pan ddaethpwyd â'r cerbyd ar y fangre drwyddedig;
- (b) yn unsydd er mwyn eu glanhau a'u diheintio, os yr eir â hwy yn unionsyth i'r cyfleusterau glanhau a diheintio yn ddi-oed ar ôl cyrraedd y fangre.

(3) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd neu gyfarpar sy'n ymadael â mangre drwyddedig -

- (a) ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â dom anifeiliaid neu halogiad arall sy'n deillio o anifeiliaid sydd wedi cael eu dadlwytho o'r cerbyd ar y fangre drwyddedig;
- (b) ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â dom yr anifeiliaid neu halogiad arall sy'n deillio o anifeiliaid a oedd yn cael eu llwytho ar y cerbyd ar y fangre drwyddedig

(3) If a person outside the animal area is wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination, an inspector may serve on that person a notice giving that person the option of immediately -

- (a) cleaning his outer clothing,
- (b) changing into clean clothing,
- (c) disposing of disposable clothing, or
- (d) leaving the licensed premises.

### **Footwear in the animal area**

3. Any person leaving the animal area must cleanse and disinfect his or her footwear in the footbath provided.

### **Vehicles**

4.-(1) No person shall bring on to or take from the licensed premises any vehicle or equipment carried with that vehicle that is visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination.

(2) This paragraph shall not apply to any vehicle or equipment coming on to the licensed premises -

- (a) visibly contaminated with excreta or other animal contamination from animals being carried on the vehicle at the time it is brought on to the licensed premises;
- (b) solely for cleansing and disinfection, if taken immediately to the cleansing and disinfection facilities immediately upon arrival.

(3) This paragraph shall not apply to any vehicle leaving the licensed premises -

- (a) visibly contaminated with excreta or other contamination from animals which have been unloaded from the vehicle on the licensed premises;
- (b) visibly contaminated with excreta or other contamination from animals which were loaded on to the vehicle on the licensed premises.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2004 Rhif 1803 (Cy.191)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid  
(Cymru) 2004

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2004 No. 1803 (W.191)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

The Animal Gatherings (Wales)  
Order 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**


W124/7/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090981-X



9 780110 909813